**<u>COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED DYFFRYN ARDUDWY A TALYBONT A GYNHALIWYD YN NEUADD GYMUNEDOL, DYFFRYN ARDUDWY AM 6.30 O'R GLOCH 2.6.26</u>**

**6.1 <u>YMDDIHEURIADAU</u>**
Cyng. Edward Griffiths (Cadeirydd), Nia Rees, Deilwen Anderson, Sion Ifor Williams, Gwynfor Evans, Evan Owen.

**6.2 <u>PRESENNOL</u>**
Cyng. Jennifer Yuill (Is-Gadeirydd), Edward Williams, Beth Bailey, John Ceri Evans, Sian Edwards, William Hooban.

Yn absenoldeb y Cadeirydd cymerwyd y Gadair gan yr Is-Gadeirydd.

**6.3 <u>CYHOEDDIADAU Y CADEIRYDD</u>**
Nid oedd gan y Cadeirydd unrhyw gyhoeddiadau i'w gwneud.

**6.4 <u>COFNODION</u>**
Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Mai 5ed 2026 fel rhai cywir.

**6.5 <u>MATERION YN CODI O'R COFNODION</u>**
**Item 5.9 (H)** Nid oedd yr Aelodau yn hapus hefo'r ymaeb oeddynt wedi ei dderbyn ynglyn ar mater hwn ag felly wedi darparu e-bost gyda ffeithiau ychwanegol ynddo i'w anfon at y Swyddog.

**6.6 <u>DATGAN BUDDIANT</u>**
Datganodd y Cyng. William Hooban ddiddordeb yn y mater gyda'r cae peldroed.
Datganodd y Cyng. Beth Bailey ddiddordeb yn y mater gyda'r cae peldroed
Ni lofnodwyd Dogfen Datgan Buddiant Personol ganddynt am eu bod wedi gwneud hyn yn barod yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor a bod y diddordeb yn y mater hwn yn rhedeg yn barhaol.
Datganodd holl Aelodau y Cyngor ddiddordeb yng nghais cynlunio 11 Glan Ysgethin, Talybont gan fod pawb sy'n Ymddiriedolwyr ar bwyllgor y neuadd bentref yn Gynghorwyr Cymuned ag fe arwyddwyd Dogfen Datgan Diddordeb Personol ar ran y Cyngor gan yr Is-Gadeirydd yn absenoldeb Cadeirydd y Cyngor.

**6.7 <u>MATERION CYNGOR GWYNEDD</u>**
Fe dderbyniwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng. Eryl Jones Williams:- Cadeirydd newydd Cyngor Gwynedd yw y Cynghorydd Elin Walker Jones o Fangor ar Is-Gadeirydd newydd yw y Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths o ardal Dolgellau. Penodwyd y Cynghorydd Dewi Owen o Aberdyfi yn gadeirydd y pwyllgor Democrataidd.
Mae Cyngor Gwynedd i ymgynghori ar dreth dwristiaid o tua £1.25 i oedolion a 75c i blant mewn llety dros nos. Bu symudiadau i oedi y mater hwn am o leiaf 12 mis i weld sut roedd Cynghorau eraill yn ymgynghori, ond penderfynwyd mynd ymlaen. Cafodd hysbysiad o gynnig i sicrhau na ellid newid enwau lleoedd hanesyddol Cymru ei basio'n unfrydol gyda Chynghorau eraill a Llywodraeth Cymru i gefnogi cadw hen enwau Cymraeg a bod na ellid eu newid ar fapiau OS.
Yn ystod trafodaeth am yr economi, gofynnais a ellir newid y les gan Lywodraeth Cymru ar Faes Awyr Llanbedr i grŵp lleol a dywedwyd wrthyf fod y les presennol ar gyfer cyfnod hir iawn, ond bod pwyllgor Menter Eryri wedi trafod y mater heb unrhyw benderfyniadau ffurfiol wedi'u gwneud. Penodwyd y Cynghorydd Gwynfor Owen yn gadeirydd Fforwm Rheilffyrdd Arfordir y Cambrian ar Cynghorydd Anne Lloyd Jones, Tywyn fel is-gadeirydd. Cyflwynir trenau newydd ar 14eg o Fedi. Bydd y trenau hwyr i'r ddau gyfeiriad yn cael eu cadw ac dim ond newidiadau bach i'r amserlenni. Efallai y bydd teithiau trenau hir yn gorfod newid yn yr Amwthig yn y dyfodol. Mynegodd y Cadeirydd siom nad oedd neb o Network Rail wedi mynychu gan ei fod eisiau trafod Gorsaf Llanbedr. Roeddwn i eisiau trafod croesfan Gorsaf Dyffryn ynghylch prosiect Dŵr Cymru o £9 miliwn gyda lorïau mawr yn croesi'r lôn. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu gyda Network Rail. Tynnwyd sylw at wastraff ar y gorsafoedd a bod angen sylw arno.
Roedd uwchraddiadau i orsafoedd Bermo, Harlech a Phorthmadog wedi'u cynllunio ynghyd â 6 hump Harrington, gyda

platfformau uwch wedi'u cynllunio. Byddai hyn yn gwneud mynediad i drenau yn haws i'r henoed a'r anabl. Bydd ychydig o drenau 4 cerbyd yr haf hwn, ond dim cymaint ag y byddai'r pwyllgor yn ei hoffi. Mae gwybodaeth Cyngor Gwynedd ar wefan Cyngor Gwynedd, y lle gorau i gael gwybodaeth wedi'i hebrwng yw ar dudalennau'r datganiad i'r wasg. Rwyf ar gael ar 01341242758 neu e.joneswilliams@btinternet.com neu fanylion ar wefan Cynghorwyr Gwynedd.

**6.8 <u>CEISIADAU CYNLLUNIO</u>**

**<u>Tynnu simdde a gosod 3 ffenestr to 11 Glan Ysgethin, Talybont (NP5/58/280C)</u>**

'Roedd yn rhaid datgan unrhyw fuddiant ar y cais hwn gan fod pawb sy'n Ymddiriedolwyr ar bwyllgor y neuadd bentref yn Gynghorwyr Cymuned ac mewn dadl gyda'r ymgeisydd ynglŷn â materion sy'n ymwneud â'r cyn ystafell snwcer yn y neuadd bentref . O ganlyniad, datganodd yr holl Ymddiriedolwyr fuddiant yn y cais cynllunio a dderbyniwyd gan Mr David Powley. Yn unol â gofynion llywodraethu, ni chymerodd yr Ymddiriedolwyr ran yn y trafodaethau nac yn y broses gwneud penderfyniadau ar yr eitem hon. Ni wnaethpwyd unrhyw benderfyniad ar y cais hwn oherwydd nad oedd y cyfarfod yn cyrraedd cworwm ar gyfer y pwynt hwn

**6.9 <u>MATERION YN CODI</u>**

**A <u>Cynllun Cyllideb</u>**

Adroddwyd bod £9,200.84 (yn cynnwys costau banc) wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd, a bod hyn yn £9,846.16 o wariant yn llai na oedd wedi cael ei glustnodi yn y gyllideb am y flwyddyn.

**B <u>Cae Peldroed</u>**

Cafwyd wybod bod neb wedi clywed ddim byd pellach gan Mr. Michael Evans o ADRA ynglyn ar safle uchod a datganodd y Clerc ei bod wedi anfon e-bost arall ato ond nid wedi clywed ddim byd yn nol. Adroddodd y Cyng. William Hooban ei fod wedi gofyn i Dwr Cymru gario allan gwaith o lefelu y cae fel rhan o'i cynllun adnoddau.

**C <u>Cais Grant Gwynedd Ni</u>**

Adroddodd y Clerc ei bod bron a gorffen cwblhau ffurflenni y grant uchod ond angen gwybod a oedd angen ychwanegu unrhyw beth arall at y grant ag hefyd eisiau gwybod os mae seddi gyda breichiau neu ddim oedd ei angen. Cytunwyd cynnwys giat hunain gau ar gyfer y parc chwarae yn y cais ag hefyd mynd am seddi gyda breichiau.

**D <u>Camerau CCTV</u>**

Adroddodd y Cyng. Jennifer Yuill ei fod wedi cael gair gyda Deana Fisher ynglyn ar mater uchod a cytunwyd gofyn iddi fynychu cyfarfod mis Medi o'r Cyngor ag i is-bwyllgor camerau CCTV gyfarfod yn y cyfamser.

**6.10 <u>GOHEBIAETH</u>**

**A <u>Cyngor Gwynedd – Adran Amgylchedd</u>**

Wedi derbyn llythyr gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor bydd Ffordd Bennar, Talybont yn cael ei chau ar yr 22ain o'r mis hwn ar sail iechyd a diogelwch yn ystod gwaith ar ran Dwr Cymru.

**B <u>Cyngor Gwynedd – Adran Economi</u>**

Wedi derbyn e-bost gan yr Adran uchod ynglyn ag hysbysiad ffurfiol o ymgynghoriad gan Cyngor Gwynedd ar Gynnig Ardoll Ymwelwyr Gwynedd a mae manylion pellach am yr ymgynghoriad ar gael yma: https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Dweud-eich-Dweud/Ymgynghoriadau-Byw/Ymgynghoriad-Ardoll-Ymwelwyr-Gwynedd.aspx. ' Roedd y Clerc wedi anfon hwn ymlaen I bob Aelod yn barod

**C <u>Cyngor Gwynedd – Adran Priffyrdd</u>**

Wedi derbyn yr ateb canlynol gan y Swyddog Llwybrau o'r Adran uchod ynglyn a mater a godwyd yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor ag yn datgan ei fod yn amau fod y trywydd sydd dan sylw yn ffordd ddi-ddosbarth felly ddim yn gyfrifoldeb i llwybrau, Mae wedi cael sgwrs gychwynnol gyda wardeniaid y Parc Cenedlaethol yn y gobaith y medrant fod o gymorth o agwedd y camfeydd.

**D Cyfeillion Ysgol Gynradd Dyffryn Ardudwy**
Wedi derbyn e-bost gan yr uchod yn diolch am y cyfraniad ariannol a gawsant gan y Cyngor yn ddiweddar a bydd yr arian hwn yn mynd tuag at archebu chrome books ac iPads ychwanegol mae'r plant wir eu hangen,

**E Blachere Illumination Uk**
Adroddodd y Cyng. Beth Bailey ei bod wedi derbyn dau bris arwahan gan y cwmni uchod ynglyn a coed nadolig artificial ag yn datgan bod un am archebu 3 coeden (£10,326.00) ag un arall gyda llogi am 3 blynedd gyda cadw a cludiant i'r 3 goeden (£5,087.04). Cytunwyd i adaael y mater hwn ar y bwrdd nes fyddai yr is-bwyllgor nadolig wedi cyfarfod.

**6.11 ADRODDIAD Y TRYSORYDD**
Adroddodd y Trysorydd bod £47,934.80 yn y cyfrif rhedegol a £46,867.41 yn y cyfrif wrth gefn.

**Anfonebau angen eu talu ers y cyfarfod diwethaf**

| | | |
|---|---|---|
| Mrs Annwen Hughes | - £273.06 (cyflog) + £191.71 costau = £464.77 | |
| Evergreen | - £425.00 | - torri gwair y 3 fynwent |
| Gary Martayn | - £341.00 | - torri gwair parc chwarae, maes parcio ag amrywiol lefydd |
| Mr. G. J. Williams | - £141.00 | - torri gwair o gwmpas amrywiol lefydd yn Talybont |
| Pwyllgor Neuadd Bentref | - £20.00 | – llogi ystafell bwyllgor (Ebrill) |
| Mr. M. J. Kerr | - £500.00 | – agor bedd y diweddar Ms Geinor Lavender |
| J. B. Pest Control | - £60.00 | - gwaredu tyrchod ger toiledau Talybont |
| Defib Store | - £1,641.84 | - padiau defib a defib newydd ger y neuadd bentref |

Fe gafodd y taliadau uchod eu prosesu gan y Cyng. William Hooban a wnaeth y Cyng. Jennifer Yuill gymeradwyo'r taliadau ag fe roddwyd ganiatad I'r Clerc/Trysorydd I'w talu ar lein neu drwy siec ar ddiwedd y cyfarfod.

**Derbyniadau ers y cyfarfod diwethaf**
Pritchard & Griffiths - £2.025.00 – claddu y diweddar Ms Penelope Dangerfield

**Anfonebau wedi eu talu ers y cyfarfod diwethaf**

| | | |
|---|---|---|
| Catrin Soraya Williams | – £192.95 | - gwasanaeth cyfieithu |
| Jewson | - £59.98 | - nwyddau i adnewyddu ystafell chwaraeon y neuadd |
| Jewson | - £714.97 | - nwyddau i adnewyddu ystafell chwaraeon y neuadd (anfoneb cywir wedi ei derbyn a'i thalu 19/5/26) |
| Biri Trading Uk | - £89.99 | - reflectors i fynedfa maes parcio Llidiart y Parc |

**6.12 UNRHYW FATER ARALL**
Eisiau cysylltu gyda'r Adran Priffyrdd yn gofyn iddynt dorri y gor-dyfiant sydd ar hyd ochor y ffordd o Ael y Bryn draw am groesffordd Glanrhos.
Cytunwyd i dalu anfoneb LLDIY am baent a.y.y.b pan fydd wedi cyrraedd
Eisiau cysylltu gyda'r Grwp Adfywio yn gofyn iddynt am gopiau o gofnodion eu cyfarfod blynyddol diwethaf, cyfrifon blwyddyn diwethaf ag hefyd rhestr o aelodau y grwp.
Cytunwyd bod y Cyngor Cymuned yn gwneud cais am grant i Gyngor Gwynedd i gefnogi y cyngerdd mawreddog a fydd yn cael ei gynnal yn y neuadd yn mis Medi i nodi hanner cant o flynyddoedd ers marwolaeth y cerddor Meirion Williams.
Adroddodd y Cyng. Jennifer Yuill ei bod wedi cysylltu gyda'r Adran Priffyrdd i dynnu eu sylw bod rhywun wedi taro pentan ochor Dyffryn Ardudwy o bont Talybont a wedi gwneud y garreg top yn anddiogel. 'Roedd yr Adran Priffyrdd erbyn hyn wedi diogelu y garreg nes fyddai gwaith atgyweirio yn gallu cymeryd lle.
Cafwyd wybod gan y Cyng. Jennifer Yuill ei bod wedi derbyn cwyn gan rhai o drigolion ystad Bryn Awelon ynglyn ar diffyg torri gwair yn yr ardal.

**ARWYDDWYD..............................................Cadeirydd**

**DYDDIAD....................................................................**